# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 8 Mehefin 2011
Wednesday, 8 June 2011

**Cynnwys**
**Contents**

Cynnig i Gymeradwyo Argymhelliad y Prif Weinidog i Ei Mawrhydi i Benodi Cwnsler Cyffredinol
Motion to Agree to the First Minister’s Recommendation to Her Majesty to Appoint a Counsel General

Cwestiynau i’r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Trafferthion Ariannol Southern Cross
Urgent Question: The Financial Difficulties of Southern Cross

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Y Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.
In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.30 a.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 9.30 a.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

## Cynnig i Gymeradwyo Argymhelliad y Prif Weinidog i Ei Mawrhydi i Benodi Cwnsler Cyffredinol
## Motion to Agree to the First Minister's Recommendation to Her Majesty to Appoint a Counsel General

*Cynnig NDM4726 Carwyn Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 9.1, yn cytuno â'r argymhelliad gan Brif Weinidog Cymru i Ei Mawrhydi benodi Theodore Huckle fel Cwnsler Cyffredinol.*

*Motion NDM4726 Carwyn Jones*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 9.1, agrees to the First Minister's recommendation to Her Majesty to appoint Theodore Huckle as Counsel General.*

**The First Minister (Carwyn Jones):** I move the motion.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Cynigiaf y cynnig.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies):** Mae'n gwbl hanfodol bod y Llywodraeth yn cael y cyngor cyfreithiol cywir a phriodol bob amser. Credaf fod penderfyniad y Prif Weinidog i benodi cwnsler y Frenhines tu allan i wleidyddiaeth yn un pwysig a chwbl briodol. Mae hefyd yn gosod cynsail pwysig. Bydd penodi person cyfreithiol y tu allan i wleidyddiaeth sydd yn annibynnol yn bwysicach fyth gan fod y lle hwn bellach wedi derbyn pwerau deddfu llawn a'i fod bellach yn gorff deddfwriaethol go iawn. Felly, bydd y cyngor cyfreithiol mae'r Llywodraeth hon yn ei derbyn yn hanfodol, a bydd cael rhywun fel Mr Huckle yn bwysig er mwyn cynnal hygrededd y lle hwn. Bydd y penodiad hwn hefyd yn bwysig i hygrededd datganoli yn gyffredinol. Felly, bydd fy ngrŵp yn cefnogi'r cynnig hwn, ac, os y caiff ei dderbyn, fel yr wyf yn amau y bydd, hoffwn estyn fy nymuniadau gorau i Mr Huckle yn ei swydd newydd.

**The Leader of the Opposition (Paul Davies):** It is vital that the Government receives the correct and appropriate legal advice at all times. I believe that the First Minister's decision to nominate a Queen's counsel outwith politics is a very important one and entirely appropriate. It also sets an important precedent. The appointment of a legal person outside of politics who is independent is even more important given that this place has secured full legislative powers and is now a genuine legislative body. The legal advice that this Government will receive will therefore be essential, and having someone like Mr Huckle will be important to maintain the credibility of this place. This appointment will also be important for the credibility of devolution in general. Therefore, my group will support this motion, and, if it is agreed here today, as I suspect it will be, I would extend my best wishes to Mr Huckle in his new post.

**Simon Thomas:** Yr oeddwn ychydig yn siomedig nad oedd y Prif Weinidog wedi manteisio ar y cyfle i amlinellu rhinweddau Mr Huckle ar gyfer y swydd bwysig hon yn y Cynulliad newydd, gan ein bod ar fin dechrau proses o ddeddfu'n llawn am y tro cyntaf. Bydd cyngor y Cwnsler Cyffredinol yn bwysig i'r Llywodraeth yn y broses honno. Felly, manteisiaf ar y cyfle hwn i ofyn

**Simon Thomas:** I was a little disappointed that the First Minister did not take the opportunity today to outline Mr Huckle's qualifications for this very important role within the new Assembly, given that we are about to start the process of legislating fully for the first time. The advice of the Counsel General will be crucial to the Government in that process. I therefore take this opportunity

ychydig o gwestiynau i'r Prif Weinidog, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn ateb y cwestiynau hyn yn hytrach nag anwybyddu'r cyfle i esbonio'r enwebiad i'r Cynulliad.

to ask the First Minister a few questions, and I hope that he will answer them rather than ignoring the opportunity to explain the nomination to the Assembly.

Yn gyntaf, dylid dweud bod Mr Huckle yn uchel ei fri fel bargyfreithiwr, ac yr ydym yn croesawu penodiad arfaethedig rhywun sydd â chymaint o statws o fewn ei broffesiwn. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae wedi ennill ei fri a'i statws mewn maes nad yw'n hollol gymwys i swydd y Cwnsler Cyffredinol a bydd yn rhaid iddo feithrin profiad o gyfraith gyfansoddiadol. Bu hynny'n wir am Gwnsleriaid Cyffredinol yn y gorffennol, felly nid yw'n rhwystr fel y cyfryw, ond manteisiaf ar y cyfle i ofyn i'r Prif Weinidog amlinellu'r prosesau y bu drwyddynt wrth drafod gyda Mr Huckle ei allu i helpu'r Llywodraeth yn y broses o lunio cyfraith am y tro cyntaf yn y Senedd.

First, it should be said that Mr Huckle is a barrister of great repute and we welcome the proposed appointment of someone who has such high status within the profession. However, that said, he has gained his reputation and status in an area that is not entirely relevant to the post of Counsel General and he will need to gain experience of constitutional law. That has been true of previous Counsels General, so it is not a barrier as such, but I take the opportunity to ask the First Minister to outline the processes that he went through in discussing with Mr Huckle his ability to assist Government in the process of drawing up legislation for the first time in the Senedd.

Yr ail gwestiwn sy'n codi yw'r un ynglŷn â'r ffaith bod siambrau Mr Huckle wedi dweud yn glir y bydd yn cario ymlaen i weithio iddynt yn llawn amser. Felly, mae cwestiwn yn codi ynglŷn â beth yw blaenoriaeth Mr Huckle—ei waith fel Cwnsler Cyffredinol i'r Llywodraeth neu ei waith yn y siambrau. Hoffwn glywed gan y Prif Weinidog pa drafodaethau a gafodd gyda Mr Huckle ynglŷn â blaenoriaethu'r swydd hon a faint o waith ac amser y gall roi i'r swydd newydd hon yng nghyd-destun y gwaith proffesiynol mae'n bwriadu parhau i'w wneud.

The second question that arises relates to the fact that Mr Huckle's chambers have made it clear that he will continue to work for them full time. Therefore, the question arises as to whether Mr Huckle's priority is his work as Counsel General or his work in chambers. I would like to hear from the First Minister what negotiations he has had with Mr Huckle about the prioritisation of this post and how much time and commitment he can give to this new post in the context of the professional work that he intends to continue with.

Yn olaf, mae'n rhaid cofio bod ambell i enwebiad i'r swydd hon yn y gorffennol wedi cael eu rhwystro gan fod yr enwebai arfaethedig wedi bod yn aelod o glwb neu gymdeithas sydd yn gaeëdig i bobl eraill. A fydd cofrestr gyhoeddus ar gael o waith Mr Huckle, ei benodiadau, a'i aelodaeth o glybiau a allai wrthdaro â buddiannau y lle hwn? Hoffwn i'r Prif Weinidog fanteisio ar y cyfle i ateb y cwestiynau hynny fel bod modd i ni wneud penderfyniad teg ar y penodiad hwn.

Finally, bearing in mind that a few nominations to this post in the past have been blocked because the proposed nominee had been a member of a club or society whose membership is closed, will there be a public register of Mr Huckle's work, his appointments, and his membership of clubs that might conflict with the interests of this institution? I would like the First Minister to take this opportunity to respond to those questions so that we can come to a fair decision on this appointment.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Yr wyf yn croesawu'r penodiad hwn yn fawr. Yr oeddwn yn falch o gael torri gair â'r darpar Gwnsler Cyffredinol yn y Siambr ddoe. Nid wyf yn cytuno â nifer o'r pwyntiau a wnaed gan Simon Thomas ar y mater hwn. Yr wyf

**Lord Elis-Thomas:** I very much welcome this appointment. I was very pleased to speak to the Counsel General designate in this Chamber yesterday. I do not agree with a number of the points made by Simon Thomas on this matter. I believe that this nomination

yn meddwl bod hwn yn enwebiad rhagorol a'i fod yn dangos pa mor bwysig yw ein bod yn cael rhywun o brofiad eang ym maes y gyfraith a fydd yn gallu addasu, yn sicr, er mwyn bod yn gyfreithiwr arbennig i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n unrhyw fath o anair ar ddeiliaid y swydd cyn hyn i ddweud pa mor bwysig yw cael rhywun o safon sydd yn gyfreithiwr annibynnol oherwydd, yn dilyn ein datblygiad cyfansoddiadol yn y lle hwn, mae'r swydd wedi newid. Yr oedd yn briodol bod un o'n Haelodau yn dal y swydd yn y trydydd Cynulliad a bod gennym sefyllfa gyfreithiol dipyn bach yn fwy dyrys na'r un yn y Cynulliad cyntaf a'r ail Gynulliad, nad af yn ôl i'w thrafod. Ers Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y deiliad oedd un o'n Haelodau a gosodwyd sail glir o atebolrwydd i'r swydd. Yr wyf yn sicr y bydd y darpar Gwnsler Cyffredinol yn awyddus i barhau â'r atebolrwydd hwnnw i'r Cynulliad.

is excellent and that it demonstrates how important it is for us to have someone with broad experience in the legal field who will, I am sure, be able to adapt to being an expert lawyer for the Welsh Government. I do not think that it is a slur on the previous post holders to say how important it is that we have someone of repute and an independent lawyer, because, following the constitutional development of this place, the post has changed. It was appropriate that one of our Members held the post in the third Assembly and that we had a slightly more complex legal situation than that in the first and second Assemblies, which I will not go into. Since the 2006 Act, the post holder was one of our Members and a clear line of accountability was set for that post. I am certain that the Counsel General designate will be keen to continue in that accountability to the Assembly.

Mae arnaf ofn fy mod hefyd yn anghytuno â Simon Thomas ynglŷn â mater gwaith proffesiynol y darpar Gwnsler Cyffredinol pan fydd yn gweithio i ni. Nid yw hynny'n anarferol o gwbl ymhlith cwnsleriaid seneddau, megis yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban neu, yn wir, o ran y cyngor cyfreithiol sydd ar gael i'r Llefarydd yng Ngogledd Iwerddon. Yr hyn sydd yn bwysig yw bod ansawdd y cyngor ac ymarfer proffesiynol deiliad y swydd bwysig hon yn adlewyrchu'n dda ar y Llywodraeth ac, drwy gysylltiad, ar y Cynulliad.

I am afraid to say that I also disagree with Simon Thomas about the matter of the professional work of the Counsel General designate when he will be working for us. That is not at all unusual among counsels to parliaments, such as in Northern Ireland, Scotland, or, indeed, with regard to the legal advice that is available to the Presiding Officer in Northern Ireland. What is important is that the quality of the advice and the professional practice of the holder of this important post reflects well on the Government and, by association, on this Assembly.

Mae'r jig-so cyfreithiol bron yn gyflawn a chredaf fod y Prif Weinidog yn gwybod beth yr wyf yn mynd i'w ofyn nesaf: pryd y bydd yn cael gair gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig am y swydd arall sydd ei hangen yn fy marn i, sef adfocad cyffredinol ar gyfer Cymru yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Nid wyf yn mynd i hysbysebu ymgeisydd arbennig sydd yn aelod o'r blaid wleidyddol leiaf yn y lle hwn, ond mae'n llefarydd ar Gymru yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd a byddai'n gallu gwneud y swydd. Mae angen swyddog cyfreithiol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd yn cyfateb i'r swyddog yr ydym yn ei drafod y bore yma.

The legal jigsaw is almost complete and I believe that the First Minister knows what I am going to ask next: when will the First Minister have a word with the United Kingdom Government about the other post that is required in my opinion, namely an advocate general for Wales in the UK Government? I will not advertise a particular candidate who is a member of the smallest political party in this place, but he is the spokesperson for Wales in the House of Lords at present and he would be able to do the job. There is a need for a legal officer in the United Kingdom Government as a counterpart to the official that we are discussing this morning.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu y gallaf

**The First Minister:** I do not think that I can

ategu llawer at yr hyn a ddywedodd Dafydd Elis-Thomas o ran ymateb i'r pwyntiau a wnaeth Simon Thomas. Mae'n bwysig cofio mai nifer fach o bobl sy'n ymarfer ym maes cyfraith cyfansoddiadol—braidd neb. Mae'n bwysig dros ben cael rhywun i roi cyngor i'r Llywodraeth sydd yn dod o gefndir cyfreithiol cryf, ond nid oes yn rhaid i'r person hwnnw gael cefndir cyfansoddiadol cryf. Mae hynny'n hollol normal yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig o ran y Twrnai Cyffredinol a'r Arglwydd Adfocad yn yr Alban. Yn yr Alban, bargyfreithwyr troseddol sydd wedi dal y swydd honno. Felly, ni welaf hynny fel problem.

add much to the comments made by Dafydd Elis-Thomas in terms of responding to the points made by Simon Thomas. It is important to bear in mind that there are very few people practising constitutional law—hardly anyone. It is very important that we should have someone to advise Government who comes from a strong legal background, but that individual does not have to have a strong constitutional background. That is entirely normal in other nations of the UK in relation to the Attorney General and the Lord Advocate in Scotland. In Scotland, criminal lawyers and barristers have held those posts. Therefore, I do not see that as a problem.

O ran blaenoriaethau'r Cwnsler Cyffredinol, ei flaenoriaeth fydd gweithio fel aelod o'r Llywodraeth. Bydd beth bynnag a wna tu allan i'r swydd honno yn fater iddo ef, ond ei flaenoriaeth fydd bod yn aelod o'r Llywodraeth a rhoi cyngor i'r Llywodraeth. Dyna y byddwn yn erfyn iddo ei wneud, ac yr wyf wedi siarad gydag ef am hynny.

In terms of the priorities of the Counsel General, his priority is to work as a member of the Government. Whatever he does outwith that post will be a matter for him, but his priority will be to be a member of the Government and to provide advice to the Government. That is what I would expect him to do and I have spoken to him about that.

Ynglŷn ag adfocad cyffredinol ar gyfer Cymru, mae Adfocad Cyffredinol yr Alban yn aelod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dyletswydd Adfocad Cyffredinol yr Alban yw rhoi cyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar system gyfreithiol yr Alban. Nid oes system gyfreithiol wahanol gennym yng Nghymru, felly, ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod angen adfocad cyffredinol ar gyfer Cymru fel aelod o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, pwy a ŵyr beth fydd yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod?

In terms of an advocate general for Wales, there is an Advocate General for Scotland, who is a member of the UK Government. The responsibility of the Advocate General for Scotland is to give advice to the UK Government on the legal system in Scotland. We do not have a different legal system in Wales, so, at present, I do not think that we need an advocate general as a member of the UK Government. However, who knows what might happen in years to come?

Mae gan Theo Huckle brofiad mawr mewn sawl maes o'r gyfraith ac mae wedi ymarfer y gyfraith nid yn unig yng Nghymru ond y tu allan i Gymru. Mae felly'n ymgeisydd cryf i fod yn Gwnsler Cyffredinol. Bydd yn aelod o'r Llywodraeth a bydd dyletswydd arno i roi cyngor i'r Llywodraeth. Bydd yn rhaid i'r Llywodraeth wrando ar y cyngor hwnnw, er na fydd yr hyn y bydd eisiau ei glywed bob tro. Bydd yn hollol annibynnol o ran ei gyngor a bydd hefyd yn dod â llawer iawn o nerth a phrofiad i'r Llywodraeth.

Theo Huckle has great experience in a number of areas of law and has practiced not only in Wales but outside Wales. He is therefore a strong candidate to become Counsel General. He will be a member of Government, and he will have a duty to provide advice to the Government. The Government will need to listen to that advice, although it will not always be what it wants to hear. He will be entirely independent with regard to his advice and he will also bring a great deal of strength and experience to the Government.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object?

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn

There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Cymunedau Cynaliadwy

### Sustainable Communities

***1. Llyr Huws Gruffydd:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu gweledigaeth ei Lywodraeth i greu cymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. OAQ(4)0036(FM)*

***1. Llyr Huws Gruffydd:*** *Will the First Minister make a statement outlining his Government's vision to create sustainable communities in rural Wales. OAQ(4)0036(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cymunedau gwledig yn gynaliadwy. Mae manylion yr ymrwymiad hwnnw i'w gweld yn 'Sefyll Cornel Cymru', sef maniffesto'r Llywodraeth.

**The First Minister (Carwyn Jones):** The Welsh Government is firmly committed to ensuring the sustainability of our rural communities. That commitment is set out in 'Standing up for Wales', which is the Government's manifesto.

**Llyr Huws Gruffydd:** O dan eich Llywodraeth flaenorol, cyflwynodd y cyn-Weinidog dros Faterion Gwledig nifer o gynlluniau i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig Cymru. Un o'r rhain oedd cynllun cynhwysfawr i daclo TB mewn gwartheg, sef pla sydd wedi taflu cysgod dros gymunedau amaethyddol ers blynyddoedd maith. Fel un a gefnogodd y cynlluniau yma eich hun, Brif Weinidog, a allwch chi gadarnhau eich bod yn dal i'w cefnogi ac, yn fwy penodol, na fydd eich Llywodraeth chi yn newid cyfeiriad ac yn tynnu yn ôl o'r cynllun difa moch daear?

**Llyr Huws Gruffydd:** Under your previous Government, the former Minister for Rural Affairs introduced a number of plans to get to grips with some of the challenges facing rural communities in Wales. One of those was a comprehensive scheme to get to grips with bovine TB, which is a disease that has cast a cloud over agricultural communities for many years. As someone who supported those plans yourself, First Minister, can you confirm that you still support them and, more specifically, that your Government will not change direction and withdraw from the badger cull?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth wedi gwneud addewid i ystyried y wyddoniaeth ynglŷn â delio â TB mewn moch daear ac mewn gwartheg. Yr ydym yn edrych ar hyn bob wythnos o bob mis er mwyn canfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â TB, sy'n broblem i lawer o ffermwyr llaeth yng Nghymru.

**The First Minister:** The Government has pledged to consider the science regarding dealing with TB in badgers and in cattle. We consider this issue every week of every month in order to identify the most effective way of dealing with TB, which is a problem for many dairy farmers in Wales.

**Rebecca Evans:** I congratulate the Welsh Government and Carmarthenshire County Council on sponsoring the Bwcabus service,

**Rebecca Evans:** Rwy'n llongyfarch Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr am noddi'r gwasanaeth Bwcabus, sy'n helpu

which helps people living in rural parts of Ceredigion and Carmarthenshire get to work and access education, training and health services. This award-winning scheme is the first of its kind in Wales and is proving tremendously popular with the isolated passengers whom it serves. Can you give your Government's continued commitment to securing sustainable transport such as this in rural communities?

pobl sy'n byw mewn rhannau gwledig o Geredigion a Sir Gâr i fynd i'r gwaith a manteisio ar wasanaethau addysg, hyfforddiant ac iechyd. Mae'r cynllun hwn wedi ennill gwobrau, a dyma'r gwasanaeth cyntaf o'i fath yng Nghymru. Mae'n hynod o boblogaidd gyda'r teithwyr y mae'n eu gwasanaethu sy'n byw mewn mannau anghysbell. A allwch roi ymrwymiad parhaus eich Llywodraeth i sicrhau trafnidiaeth gynaliadwy fel hyn mewn cymunedau gwledig?

**The First Minister:** We have, for the course of this financial year, provided £11 million through our local transport services grant to help local authorities to support the provision of socially necessary rural bus services. At least 10 per cent of that grant is to be used to support community transport. The Bwcabus scheme is an innovative approach that has won a number of national awards, which demonstrates its effectiveness.

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi darparu £11 miliwn drwy ein grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol i helpu awdurdodau lleol i gefnogi gwasanaethau bysiau gwledig sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Bydd o leiaf 10 y cant o'r grant hwnnw yn cael ei ddefnyddio i gefnogi trafnidiaeth gymunedol. Mae'r cynllun Bwcabus yn ddull arloesol sydd wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol, sy'n dangos ei effeithiolrwydd.

**Paul Davies:** The First Minister's decision to downgrade the rural affairs portfolio in his Cabinet has rightly come in for criticism. In trying to defend his decision he said:

**Paul Davies:** Mae'n iawn fod penderfyniad y Prif Weinidog i israddio'r portffolio materion gwledig yn ei Gabinet wedi cael ei feirniadu. Wrth geisio amddiffyn ei benderfyniad dywedodd fod

'The economy of rural Wales is bound up with the economy of urban Wales'.

economi cefn gwlad Cymru yn gysylltiedig â'r economi yng Nghymru drefol.

Yet, his own party manifesto is clear in its statement that

Serch hynny, mae maniffesto ei blaid ei hun yn glir yn ei ddatganiad a ganlyn:

'Welsh Labour however recognises and understands the particular challenges facing Wales' rural communities.'

'Mae Llafur Cymru fodd bynnag yn cydnabod ac yn deall yr heriau penodol y mae cymunedau gwledig Cymru yn eu hwynebu.'

The First Minister cannot seem to make up his mind about this. Do rural communities in Wales face particular challenges or not?

Ymddengys na all y Prif Weinidog benderfynu ar y mater hwn. A yw cymunedau gwledig yng Nghymru yn wynebu heriau penodol ai peidio?

**The First Minister:** The economy of rural Wales is bound up with the economy of urban Wales; it is quite simple. However, we recognise that there are particular issues in the rural economy that require specific attention, which is why there is a Deputy Minister with specific responsibility for agriculture, food, fisheries and European

**Y Prif Weinidog:** Mae economi cefn gwlad Cymru yn gysylltiedig â'r economi yng Nghymru drefol; mae'n eithaf syml. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen rhoi sylw arbennig i faterion penodol yn yr economi wledig, a dyna pam rwyf wedi penodi Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb penodol dros amaethyddiaeth,

programmes. All of those matters are crucial to rural Wales, and we have recognised that and included them in a Deputy Minister's title.

bwyd, pysgodfeydd a rhaglenni Ewropeaidd. Mae pob un o'r materion hynny yn hanfodol i gefn gwlad Cymru, ac rydym wedi cydnabod hynny ac wedi eu cynnwys yn nheitl y Dirprwy Weinidog.

**Paul Davies:** The First Minister does recognise that rural Wales faces particular challenges; therefore, let me try another subject. It is essential that young people in all parts of Wales are able to access well-paid employment and to set up home in their local communities should they wish to do so. However, the latest data warn that many people in rural areas will be priced out of the market. In Carmarthenshire, for example, the price of a flat increased by 34 per cent in a single year, and, in Ceredigion, average house prices are now eight times average earnings. In the circumstances, what plans do the First Minister and his Government have to make housing more affordable for people in rural communities?

**Paul Davies:** Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod Cymru wledig yn wynebu heriau penodol, felly gadewch i mi roi cynnig ar bwnc arall. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru yn gallu cael hyd i swyddi sy'n talu'n dda ac yn gallu sefydlu cartref yn eu cymunedau lleol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf yn ein rhybuddio y bydd llawer o bobl mewn ardaloedd gwledig yn cael eu prisio allan o'r farchnad. Yn Sir Gâr, er enghraifft, cynyddodd pris fflat 34 y cant mewn un flwyddyn, ac yng Ngheredigion, mae prisiau tai ar gyfartaledd bellach wyth gwaith enillion cyfartalog. O dan yr amgylchiadau, pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog a'i Lywodraeth i wneud tai yn fwy fforddiadwy i bobl mewn cymunedau gwledig?

9.45 a.m.

**The First Minister:** What about the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010? Your party opposed it. Your party flogged much of the public housing stock in the 1980s and 1990s, and never replaced it. The reason there are so many people in need of housing in Wales is because of the policies that your party pursued in the first place. We are trying to pick up the pieces, and are doing so effectively. That is why the housing LCO was passed, and the Housing (Wales) Measure 2011 was taken forward by two parties in this Chamber: to provide the houses that people need after the destruction wrought by the party opposite.

**Y Prif Weinidog:** Beth am Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010? Roedd eich plaid yn ei wrthwynebu. Gwerthodd eich plaid lawer o'r stoc tai cyhoeddus yn yr 1980au a'r 1990au, ac ni chynigiwyd dim yn ei le. Y rheswm pam mae angen tai arMae cynifer gynifer o bobl angen tai yng Nghymru yw oherwydd o ganlyniad i'ry polisïau y gwnaetha ddilynodd eich plaid dilyn yn y lle cyntaf. Rydym yn ceisio gwneud iawn am hynny, ac rydym yn gwneud hynny'n effeithiol. Dyna pam y cafodd y GCD tai ei basio, ac y cymerwyd Mesur Tai (Cymru) 2011 ymlaen gan ddwy blaid yn y Siambr hon: er mwyn darparu'r tai y mae eu hangen ar bobl ar ôl y dinistr a achoswyd gan y blaid gyferbyn.

**Paul Davies:** He is obviously rewriting history. We opposed the banning of the right to buy. Let me try another question. Obviously, agriculture plays a vital role in sustaining our rural communities, and as the

**Paul Davies:** Mae'n amlwg ei fod yn ailysgrifennu hanes. Gwnaethom wrthwynebu gwahardd yr hawl i brynu. Gadewch i mi roi cynnig ar gwestiwn arall. Yn amlwg, mae amaethyddiaeth yn chwarae

First Minister is fully aware, farmers in Wales produce excellent food. We have seen recently that the E. coli outbreak in Germany and the subsequent banning of European Union vegetables by Russia can have a huge impact on food production in countries such as Spain. Naturally, public health must be a priority, and we must have the highest possible food safety standards. Given these events, what reassurances will the First Minister give to Welsh farmers, and what work is the Welsh Government doing to minimise any negative impact on Welsh producers?

rhan hanfodol o ran cynnal ein cymunedau gwledig, ac fel y mae'r Prif Weinidog yn gwybod, mae ffermwyr yng Nghymru yn cynhyrchu bwyd rhagorol. Rydym wedi gweld yn ddiweddar fod digwyddiadau fel yr achosion fel y rhai o E. coli yn yr Almaen a'r phenderfyniad gwahardd dilynol Rwsia i wahardd o llysiau o'r Undeb Ewropeaidd gan Rwsia yn gallu gcael effaith enfawr ar gynhyrchu bwyd mewn gwledydd fel Sbaen. Yn naturiol, mae'n rhaid i iechyd y cyhoedd fod yn flaenoriaeth, a rhaid inni gael y safonau uchaf posibl o ran diogelwch bwyd. O ystyried y digwyddiadau hyn, pa sicrwydd y gall y Prif Weinidog ei roi i ffermwyr Cymru, a pha waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar gynhyrchwyr o Gymru?

**The First Minister:** The Minister for Health and Social Services is meeting the Food Standards Agency today to discuss the situation with regard to human health. That is the appropriate response. The provenance of this outbreak now appears clear, and we have seen what happened in Russia. I hope that things will get back to normal as quickly as possible, but we are taking steps to protect the health of the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd heddiw i drafod y sefyllfa o ran iechyd pobl. Dyna yw'r ymateb priodol. Mae tarddiad yr achos hwn bellach yn ymddangos yn glir, ac rydym wedi gweld yr hyn a ddigwyddodd yn Rwsia. Rwy'n gobeithio y bydd pethau'n mynd yn ôl i'r arfer cyn gynted ag y bo modd, ond rydym yn cymryd camau i ddiogelu iechyd pobl Cymru.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, as you know, the Welsh Liberal Democrats have been calling for many months for the Welsh Government to routinely publish all expenditure over £20,000, as is done by the Scottish Government and the UK Government. I welcome the news released in Jane Hutt's answer to a written question that you will now adopt this policy. When will it become operational?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn galw am fisoedd lawer i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl wariant dros £20,000 fel mater o drefn, fel y mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU yn ei wneud. Croesawaf y newyddion a ryddhawyd yn ateb Jane Hutt i gwestiwn ysgrifenedig y byddwch yn awr yn mabwysiadu'r polisi hwn. Pryd y fydd yn dod ydaw'n weithredol?

**The First Minister:** We are hoping to bring this policy into operation in the next few weeks. It is a matter of collating the information available and putting in place systems to gather and publish all expenditure over £25,000.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gobeithio sicrhau y bydd y polisi'n cael ei weithredu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'n fater o gasglu'r wybodaeth sydd ar gael a rhoi systemau ar waith i gasglu a chyhoeddi'r holl wariant dros £25,000.

**Kirsty Williams:** Thank you for that, First Minister. Do you agree that it is essential that this information is put into the public domain

**Kirsty Williams:** Diolch am yr eich ateb hwnnw, Brif Weinidog. A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y wybodaeth hon yn

so that politicians and, indeed, the public, can play their role in rooting out waste and inefficiency? It has taken quite a while for you to agree to this policy, and I ask again whether you will today clarify when this information will be published, the format in which it will be published, and the method by which members of the public will be able to obtain it. Will you commit to alerting all Assembly Members when this policy becomes operational?

dod yn eiddo cael ei rhoi i mewn i'r parth cyhoeddus fel y gall gwleidyddion ac, yn wir, y cyhoedd, chwarae eu rôl wrth gael wneud eu rhan yn yr ymdrech i gwared ar wastraff ac aneffeithlonrwydd? Mae wedi cymryd cryn amser i chi gytuno ar y polisi hwn, a gofynnaf eto a fyddwch heddiw yn egluro pryd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi, ym mha fformat y bydd yn cael ei chyhoeddi, a sut y bydd aelodau o'ry cyhoedd yn gallu cael mynediad atiei gweld. A wnewch chi ymrwymo i hysbysu holl Aelodau'r Cynulliad pan fydd y polisi hwn yn dod yn weithredol?

**The First Minister:** Yes, I have no difficulty with that. There is an issue with cost, and we must keep costs down when the new systems are put in place, but it stands to reason that making public every item of expenditure over £25,000 involves ensuring that the public can access that information as easily as possible.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, nid oes gennyf anhawster o ran hynny. Mae problem o ran cost, a rhaid inni gadw costau i lawr pan fydd y systemau newydd yn cael eu rhoi ar waith, ond mae'n amlwg y bydd gwneud cyhoeddi bob pob eitem o wariant dros £25,000 yn gyhoeddus yn golygu sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i'r cyhoedd gael gafael ar y wybodaeth honno.

**Kirsty Williams:** May I ask you about another way in which we could make the finances of the Welsh Government more transparent? I am sure that, at the moment, you and your Cabinet colleagues are in discussions about the Welsh Government's budget, which will be published in the autumn. You will be aware that, for a number of years, many committees, including the Finance Committee, have been critical of the way in which the budget figures are published, which often makes it difficult to compare year-on-year changes in Government expenditure. Will you agree to review the format of the budget and the way that it is presented so that politicians, the public and the media have an opportunity to scrutinise the financial decisions of your Government?

**Kirsty Williams:** A gaf ofyn i chi am ffordd arall y gallem wneud cyllid Llywodraeth Cymru yn fwy tryloyw? Rwy'n siŵr, ar hyn o bryd, eich bod chi a'ch cydweithwyr yn y Cabinet yn cynnal trafodaethau am gyllideb Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Byddwch yn gwybod, am nifer o flynyddoedd, Gwyddoch fod llawer o bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid, wedi bod yn feirniadol ers blynyddoedd o'r ffordd y mae'r ffigurau cyllideb yn cael eu cyhoeddi, sy'n aml yn ei gwneud yn anodd cymharu newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng ngwariant y Llywodraeth o'r naill flwyddyn i'r llall. A wnewch chi gytuno i adolygu ffurf y gyllideb a'r ffordd y mae'n cael ei chyflwyno fel bod gwleidyddion, y cyhoedd a'r cyfryngau yn cael cyfle i graffu ar benderfyniadau ariannol eich Llywodraeth?

**The First Minister:** I think that the budget is very open: it is scrutinised closely by committees in this institution, and indeed on the floor of the Assembly, on more that one occasion. I do not accept the suggestion that, somehow, the budget process is secretive or unclear in any way; it is probably far clearer than was ever the case in Westminster.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod y gyllideb yn agored iawn: mae'n destun gwaith craffu manwl gan bwyllgorau yn y sefydliad hwn, ac yn wir ar lawr y Cynulliad, ar fwy nag unwaith achlysur. Nid wyf yn derbyn yr awgrym, rywsut, fbod y bproses y gyllideb, rywsut, yn gyfrinachgar neu'n aneglur mewn unrhyw ffordd; mae siŵr o fod yn llawer cliriach nag y bu erioed y broses yn San

Steffan erioed.

**Kirsty Williams:** It is not a question of how many times committees have an opportunity to look at the budget, or how many times it is discussed here in the Chamber, but the way in which the figures are published and made available. You will be aware that committees, including the Finance Committee, have complained for a number of years about the way in which those figures are published, making it difficult on a year-on-year basis to be able to understand the changes in the financial priorities of your Government. It is all very well having opportuinities to debate, but if the financial information that is given makes it difficult to scrutinise, we can have as many debates in the Chamber as we like. Will you agree to look at the recommendations of the Finance Committee in years gone by and look to ensure that we can have a budget that can be scrutinised by all of those who have an interest in how the Government spends its money and to ensure that we can make year-on-year comparisons?

**Kirsty Williams:** Nid yw'n gwestiwn o sawl gwaith y caiff y pwyllgorau gyfle i edrych ar y gyllideb, neu sawl gwaith y caiff ei thrafod yma yn y Siambr yw'r cwestiwn, ond, yn hytrach, y gwestiwn o'r fforddmodd y caiff y ffigurau eu cyhoeddi a sut y gellir eu gweld.maent ar gael. Byddwch yn gwybod Gwyddoch bod fod pwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid, wedi cwyno am nifer o flynyddoedd am y ffordd y caiff y ffigurau hynny eu cyhoeddi, gan ei gwneud yn anodd ar sail blwyddyn i flwyddyn i ddeall y newidiadau ym mlaenoriaethau ariannol eich Llywodraeth o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'n uUn peth yw cael cyfleoedd i drafod, ond os yw'r wybodaeth ariannol a roddir yn ei gwneud yn anodd gwneud gwaith craffu'n anodd, gallwn gael cymaint cynifer o drafodaethau ag y dymunwn yn y Siambr. A wnewch chi gytuno i edrych ar argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn y blynyddoedd a fu ac edrych iystyried a oes modd sicrhau y gallwn gael cyllideb y gellir craffu arni gan gall pawbbawb sydd â diddordeb yn y modd mewn sut y mae'r Llywodraeth yn gwario ei harian graffu arni a sicrhau ein bod yn gallu gwneud cymariaethau blwyddyn i flwyddyncymharu gwariant o'r naill flwyddyn i'r llall?

**The First Minister:** The issue with some of the committees, particularly the Finance Committee, if I remember rightly, was the amount of time that the committee had to scrutinise the budget, which is a matter ultimately not for the Government, but for the Standing Orders of this institution. Nevertheless, we will do what we can in order to ensure that the figures are presented in a way that allows them to be understood by committees, as you put it.

**Y Prif Weinidog:** Y broblem o safbwynt rhai o'r pwyllgorau, yn enwedig y Pwyllgor Cyllid, os cofiaf yn iawn, oedd faint oyr amser yr oedd gan y pwyllgor i graffu ar y gyllideb, sy'n ac nid mater i'r Llywodraeth yw hwn yn y pen draw, fater yn y pen draw ar gyfer nid yn unig y Llywodraeth, ond ar gyferi Rheolau Sefydlog y sefydliad hwn hefyd. Serch hynny, byddwn yn gwneud yr hyn y gallwn er mwyn sicrhau bod y ffigurau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt gael eu deall gan bwyllgorau, fel y dywedasoch.

### Darlledu Cyhoeddus

### Public Broadcasting

***2. Mick Antoniw:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael am ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(4)0035(FM)*

***2. Mick Antoniw:*** *What discussions has the First Minister had regarding public broadcasting in Wales. OAQ(4)0035(FM)*

***6. Rhodri Glyn Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol darlledu*

***6. Rhodri Glyn Thomas:*** *What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the future of*

*yng Nghymru. OAQ(4)0024(FM)*

*broadcasting in Wales. OAQ(4)0024(FM)*

**The First Minister:** I have regular discussions about broadcasting issues that affect Wales. I have written to the Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport, Jeremy Hunt MP, demanding a meeting in order to ensure that he fully understands the strength of feeling regarding broadcasting in both Welsh and English in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd am faterion darlledu sy'n effeithio ar Gymru. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, Jeremy Hunt AS, yn mynnu cyfarfod er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn llawn cryfder y teimlad ynghylch darlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru.

**Mick Antoniw:** In view of the imminent meltdown of Welsh and English-language broadcasting in Wales as a consequence of the Westminster Government's cuts programme, does you agree, First Minister, that it is essential that both Welsh and English-language programmes are properly financed and that the governance structure for BBC Wales and S4C must be correct? Consequently, do you agree that representations need to be made by the Welsh Government to the effect that S4C should be removed from the Public Bodies Bill and that there should be a public inquiry into public-sector broadcasting in Wales? Will you make representations to this effect to the Department for Culture, Media and Sport?

**Mick Antoniw:** O ystyried y chwalfa sydd ar ddyfod fin digwydd ym maes mewn perthynas â darlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru o ganlyniad i raglen o doriadau Llywodraeth San Steffan, a ydych yn cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn hanfodol bod rhaglenni Cymraeg a Saesneg yn cael eu hariannu mewn modd priodol a bod yn rhaid i'r strwythur llywodraethu ar gyfer BBC Cymru a S4C fod yn un priodol? O ganlyniad, a ydych yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau i'r perwyl y dylai S4C gael ei ddileu o'r Bil Cyrff Cyhoeddus ac y dylid cael ymchwiliad cyhoeddus i'r sector darlledu cyhoeddus yng Nghymru? A wnewch gyflwyno sylwadau i'r perwyl hwn at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon?

**The First Minister:** We have made the representations already. There was a consensus in the Chamber that there should be an independent review of S4C: it was a suggestion made by the previous Minister, Alun Ffred Jones, and one that I fully support. However, that is not something that has been accepted by the UK Government.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi gwneud y sylwadau yn barod. Roedd consensws yn y Siambr y dylid cynnal adolygiad annibynnol o S4C: roedd yn awgrym a wnaed gan y Gweinidog blaenorol, Alun Ffred Jones, ac rwy'n ei gefnogi'n llwyr. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rhywbeth sydd wedi ei dderbyn gan Lywodraeth y DU.

With regard to broadcasting, there are severe fears that the cuts being proposed by the BBC would eat into news and current affairs broadcasting. I was struck last week when I was in Edinburgh for the meeting between the First Ministers of the devolved administrations that, while there were probably about 30 journalists in the room, they were all from Scotland and Northern Ireland and none at all from Wales. That situation exists now, so it raises a serious question about what might happen in the future if there are cuts on the scale that is being proposed.

O ran darlledu, mae ofnau difrifol y byddai'r toriadau a gynigir gan y BBC yn bwyta i mewn i'r ddarpariaeth newyddion a darlledu materion cyfoes. Fe'm trawyd yr wythnos diwethaf pan roeddwn i yng Nghaeredin ar gyfer y cyfarfod rhwng Prif Weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig, er roedd siŵr o fbod tua o 30 newyddiadurwyr yn yr ystafell, roedden nhw i gyd o'r Alban a Gogledd Iwerddon ac nid oedd un ohonynt o Gymru. Mae'r Dyna'r sefyllfa honno yn bodoli yn awrar hyn o bryd, felly mae'n codi cwestiwn difrifol ynghylch beth allai ddigwydd yn y dyfodol os bydd toriadau ar y raddfa sy'n cael ei gynnig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn o'r cwestiwn blaenorol, yr ydym yn gwybod erbyn hyn bod toriadau sylweddol yn mynd i fod yng nghyllideb S4C ac nad oes unrhyw sicrwydd o ran y gyllideb honno tu hwnt i 2014. Yr ydym hefyd yn gwybod bod o leiaf trafodaethau ynghylch toriadau eithaf sylweddol i raglenni gan y BBC yn yr iaith Saesneg. Yn ystod yr etholiad diwethaf, rhoesoch chi a'ch plaid addewid i bobl Cymru y byddech yn amddiffyn Cymru a'i phobl oddi wrth doriadau'r glymblaid yn San Steffan. A ydych yn derbyn bod hyn yn brawf o'r addewid hwn ac, os ydych yn methu yn eich trafodaethau gyda Jeremy Hunt, y byddwch wedi methu â gwireddu'r addewid a wnaethoch i bobl Cymru yn yr etholiad diwethaf?

**Rhodri Glyn Thomas:** Following on from the previous question, we now know that there will be significant cuts to the budget of S4C and there is no certainty with regard to that budget beyond 2014. We also know that there have been talks, at the very least, about quite significant cuts being made by the BBC to English-language programmes. During the last election, you and your party promised the people of Wales that you would defend Wales and its people from the cuts being made by the coalition in Westminster. Do you accept that this is a test of that promise and that, if you fail in your discussions with Jeremy Hunt, you will have failed to fulfil the promise that you made to the people of Wales during the last election?

**Y Prif Weinidog:** Beth yw barn Plaid Cymru ar hyn? Dim, heblaw am ddatganoli darlledu heb yr arian. Nid yw hynny ddigon da yn fy marn i. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael sefyllfa lle mae digon o arian i'r BBC ddarlledu yma yng Nghymru ac i roi gwasanaeth teg i bobl Cymru, yn y Gymraeg a Saesneg. Nid yw'n ddigon da i ddweud bod yn rhaid datganoli darlledu ac mai hwnnw yw'r ateb. Gwyddom yn iawn o'r gorffennol nad yw'r arian yn dilyn os yw darlledu, neu unrhyw fater arall, yn cael ei ddatganoli. Felly, sefyllfa'r Llywodraeth yw ein bod am sicrhau dyfodol S4C, drwy gael adolygiad—sy'n rhywbeth sydd wedi cael ei gefnogi gan Blaid Cymru yn y gorffennol. Dylid hefyd sicrhau bod barn y Llywodraeth a'r Cynulliad yn cael ei rhoi i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sef ei bod yn bwysig dros ben bod gennym system o ddarlledu yng Nghymru sy'n rhoi gwasanaeth newyddion a materion cyfoes i bobl Cymru yn hytrach na meddwl am Gymru fel rhan o Loegr o ran darlledu. Nid yw hynny'n ddigon da.

**The First Minister:** What opinion does Plaid Cymru's offer on this? None, apart from devolving broadcasting without any funding. In my opinion, that is not good enough. We have to ensure that there is enough money for the BBC to broadcast in Wales and to give a fair service to the people of Wales, in both Welsh and English. It is not good enough to say that broadcasting should be devolved and that that is the only answer. We know from what has happened in the past that the money does not follow when broadcasting, or any other matter, is devolved. Therefore, the Government wants to safeguard the future of S4C by having a review—which is something that Plaid Cymru has supported in the past. It is also necessary to ensure that the views of the Government and the Assembly are presented to the United Kingdom Government, namely that it is vital that we have a system of broadcasting in Wales that gives the people of Wales a news and current affairs service rather than one that, in broadcasting terms, thinks of Wales as part of England. That is not good enough.

**Julie Morgan:** What discussions does the First Minister plan to have with Jeremy Hunt, the Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport, about trying to get S4C to function as a proper commissioning authority again? I know that there are many concerns among the independent companies about the lack of new work that is coming through. This work is extremely important. Therefore,

**Julie Morgan:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu cael gyda Jeremy Hunt, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon, am geisio cael S4C i weithredu fel awdurdod comisiynu priodol eto? Gwn fod nifer o bryderon ymhlith y cwmnïau annibynnol am y diffyg gwaith newydd sy'n dod trwodd. Mae'r gwaith hwn

what can the First Minister do to try to get S4C moving forward again?

yn hynod o bwysig. Felly, beth gall y Prif Weinidog ei wneud i geisio sicrhau bod S4C yn symud ymlaen eto?

**The First Minister:** The indecision on the part of the UK Government with regard to S4C has meant, inevitably, that there is indecision within S4C. It is clear that, when the position of S4C was being considered, there were no real plans. Suggestions were made at various times about where S4C and its budget would sit. It is clear that the UK Government has not given much thought to S4C's position, and it has decided simply to give S4C to the BBC; that is not good enough. That point has been made many times, and I will continue to make it. It is also essential that we understand that it is not good enough for the Department for Culture, Media and Sport to look at providing a service in the Welsh language in Wales to the detriment of the English language in Wales. The two must run together. Suggesting that English-language broadcasting in Wales should be downgraded is just not good enough. The people of Wales pay their licence fees, and they are entitled to have a BBC that gives them news and current affairs programmes that are relevant to them. That is a point that will be made very strongly many times over the next few weeks.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r diffyg penderfyniad gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â S4C wedi golyguarwain, yn anochel, bod at ddiffyg penderfyniad o fewn S4C. Mae'n amlwg, pan roedd sefyllfa S4C yn cael ei hystyried, nad oedd unrhyw gynlluniau go iawn. Gwnaed awgrymiadau ar wahanol adegau ynghylch lle y byddai S4C a'i gyllideb yn eistedd. Mae'n amlwg nad yw Llywodraeth y DU wedi meddwl llawer am sefyllfa S4C, ac, yn syml iawn, mae wedi penderfynu yn syml i rhoi S4C i'r BBC; nid yw hynny'n ddigon da. Mae'r pwynt hwnnw wedi'i wneud lawer gwaith, a byddaf yn parhau i'w wneud. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn deall nad yw'n ddigon da i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon edrych ar ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg yng Nghymru ar draul yr iaith Saesneg yng Nghymru. Rhaid i'r ddau gydredeg gyda'i gilydd. Nid yw'n ddigon da i awgrymu y dylid israddio darlledu drwy gyfrwng y  Saesneg yng Nghymru. Mae pobl Cymru yn talu eu ffioedd trwyddedam eu trwyddedau, ac mae ganddynt hawl i gael BBC sy'n darparu newyddion a rhaglenni materion cyfoes sy'n berthnasol iddynt hwy. Mae hwnnw'n bwynt a fydd yn cael ei wneud yn gryf iawn yn aml dros yr wythnosau nesaf.

**Suzy Davies:** Mae gan S4C gadeirydd newydd yn awr, ac yr wyf yn siŵr y bydd Aelodau yn ymuno â mi wrth longyfarch Huw Jones ar ei benodiad. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â phenderfyniad Jeremy Hunt y tro hwn, ynteu a yw'n cytuno â'r Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograffeg a Theatr—BECTU—sy'n ei wrthwynebu?

